Thomas Helwys *c.*1575–*c.*1614

Arweinydd y Bedyddwyr a hyrwyddwr goddefgarwch

'Let them be heretics, Turks, Jews, or whatsoever, it appertains not to the earthly power to punish them in the least measure' (Helwys, *Mystery of Iniquity*, 69).

Hanai Thomas Helwys o deulu bonheddig o Swydd Nottingham ac enw ei dad oedd Edward Helwys. Ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar. Aeth i Gray's Inn ym 1593 lle y derbyniodd addysg gyffredinol. Ddwy flynedd yn ddiweddarach ymsefydlodd yn Broxtowe Hall, Basford ger Nottingham, a phriododd Joan Ashmore.

Daeth eu cartref yn gyrchfan i offeiriaid oedd â thueddiadau Piwritanaidd ac yr oeddent yn aml yn cyfarfod yno. Hefyd daeth i gysylltiad â'r anghydffurfiwr John Smyth a gafodd ddylanwad mawr arno. Tra oedd ar ymweliad â Broxtowe Hall trawyd John Smyth yn ddifrifol wael ond trwy'r gofal a gafodd yno fe'i hadferwyd i lawn iechyd.

Ymunodd Helwys ag Eglwys Anghydffurfiol Smyth yn Gainsborough a daeth yn un o'r arweinwyr yno. Dechreuodd Llys yr Esgob yn Efrog erlid rhai o aelodau'r eglwys yn Gainsborough ac o ganlyniad ymfudodd rhai ohonynt i Amsterdam yn yr Iseldiroedd ym 1607. Yn eu plith yr oedd Thomas Helwys. Gadawodd ei deulu ar ôl gan gredu y byddent hwy yn ddiogel ond cythruddwyd yr awdurdodau gan hyn a bu iddynt ddal a charcharu ei wraig, Joan, am gyfnod yng Nghastell Efrog.

Ar ddechrau 1609 bu digwyddiad tyngedfennol yn eu hanes. Ail-fedyddiodd Smyth ei hun ac yna bedyddiodd Helwys a'r gweddill o'r gynulleidfa. Golygai hyn eu bod yn awr yn eglwys fedyddiedig. Ymhen amser cododd anghydfod yn yr eglwys a arweiniodd yn y diwedd at rwyg. Cododd deg o aelodau yn cynnwys Helwys yn erbyn Smyth. Asgwrn y gynnen oedd eu hanhapusrwydd fod Smyth yn pwysleisio mai dim ond henuriaid oedd yn cael bedyddio. Credent fod hyn yn sawru

o Olyniaeth Apostolaidd, athrawiaeth oedd yn gwbl wrthun iddynt. Yn y diwedd gwahanodd y ddwy garfan.

Penderfynodd Helwys a'i gyfeillion ddychwelyd i Loegr ac i Lundain tua diwedd y flwyddyn 1612 gan lawn sylweddoli'r peryglon yr oeddent yn eu hwynebu. Sefydlasant yr Eglwys Fedyddiedig gyntaf yn Lloegr yn Spitalfields y tu allan i furiau Llundain. Roeddent yn cyfarfod yn neuadd Pinner ac o'r fan honno cafodd Helwys gryn ddylanwad fel pregethwr. Eglwys fedyddiedig gyffredinol oedd hon gyda phwyslais arbennig. Pwysleisiai Calfiniaid y cyfnod fod Iesu Grist wedi marw dros yr etholedig yn unig (Iawn Cyfyngedig) ond fe gredai'r eglwys hon ei fod wedi marw dros ddynoliaeth yn ei chyfanrwydd (Iawn Cyffredinol). Yr oeddent yn erbyn yr athrawiaeth Galfinaidd o etholedigaeth.

Gwnaeth Helwys ddatganiad o'i ddaliadau yn nheitl un o'i lyfrau sef *A Short and Plaine proofe, by the Word and Works of God, that God's Decree is not the cause of anye Mans Sinne o'r Condemnation and that all men are redeemed by Christ, as also that no infants are condemed.* Ym 1612 cyhoeddwyd llyfr ganddo sef *A short Decleration of the Mistery of Iniquity*. Yn hwn cafwyd am y tro cyntaf yn hanes Lloegr rywun yn hawlio rhyddid crefyddol cyffredinol, rhyddid cydwybod i bawb. Fe geir mêr yr hyn a ysgrifennodd yn y geiriau hyn, 'Nid yw'n Harglwydd frenin, yn ddim ond brenin daearol, ac nid oes ganddo fel brenin awdurdod, ond dros bethau daearol, ac os yw deiliaid y brenin yn ufudd, yn dilyn pob gorchymyn o'i eiddo, ni all yr Arglwydd frenin erfyn rhagor; mae crefydd dyn rhyngddo ef a Duw, ac nid oes gan y brenin le yn hyn o beth, yn yr un modd ni all brenin fod yn farnwr rhwng Duw a dyn. Nid i awdurdodau daearol y mae cosbi, bydded hwy yn hereticiaid, Twrciaid neu Iddewon.'

Nid oedd y beiddgarwch cywilyddus hwn yn erbyn y brenin yn dderbyniol gan yr awdurdodau ac felly carcharwyd Helwys. Erbyn 1616 yr oedd wedi marw.